



GOFAL PIAU HI'R GAEAF HWN

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Goglewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL

A oeddech chi'n gwybod?



- Mae blancedi trydan diffygiol yn achosi 5,000 o danau bob blwyddyn.
- Ar gyfartaledd yn y DU, ceir 12,000 o danau simnai bob blwyddyn.

Bydd y daflen hon yn rhoi gwybodaeth allweddol am ddiogelwch i chi i'ch helpu i gadw'n ddiogel gydol y gaeaf.

Cynhesu eich cartref

Tanau agored

- Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio tanau agored. Defnyddiwch gard tân bob tro er mwyn diogelu rhag gwreichion sy'n tasgu o'r cols poeth.
- Gwnewch yn siŵr bod y cols o dan reolaeth ac wedi diffodd yn llwyr cyn i chi fynd i'r gwely.
- Gwnewch yn siŵr bod y simneiau a'r ffliwiau yn lân, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.




Cynhesu eich cartref

Defnyddio gwresogyddion symudol

Cadwch wresogyddion draw oddi wrth lenni a dodrefn a pheidiwch byth â defnyddio gwresogyddion i sychu dillad.

- Datgysylltwch blygiau gwresogyddion trydan pan fyddwch yn mynd allan neu'n mynd i'r gwely.
 - Ceisiwch osod gwresogyddion yn sownd i wal er mwyn eu hatal rhag syrthio drosodd.
- Defnyddiwch wresogyddion nwy neu baraffin mewn manau sydd wedi eu hawyru'n dda. Mae gwresogyddion yn defnyddio ocsigen ac felly gallech fygu os nad yw'r ystafell wedi ei hawyru'n iawn.



Cadwch danau i ffwrdd oddi wrth ddefnyddiau

Cadw'n gynnes

Defnyddio blancedi trydan

Peidiwch byth â defnyddio poteli dŵr poeth yn yr un gwely â blanced drydan, hyd yn oed os ydych wedi diffodd y trydan.

- Datgysylltwch y plwg cyn mynd mewn i'r gwely, oni bai fod rheolydd thermostat arno ar gyfer ei ddefnyddio'n ddiogel gydol y nos.
- Peidiwch â gadael blancedi trydan wedi eu plygu gan fod hyn yn difrodi'r gwifrau mewnol. Storiwch nhw'n fflat neu wedi eu rhoio.
- Profwch eich blancedi trydan bob 3 blynedd. Mae'n bosibl i Age Concern neu eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol wneud hyn i chi.
- Ceisiwch osgoi prynu blancedi trydan ail-law a gwiriwch yn rheolaidd am ôl traul. Newidiwch eich blanced pan mae'n hŷn na 10 mlwydd oed.
- Edrychwch am y symbolau canlynol sy'n dangos bod blanced yn ddiogel i'w defnyddio.



Awgrym da



Storiwch flancedi trydan yn fflat neu wedi eu rhoio

Os yw'r trydan yn diffodd

Golau arall

Cadwch olau neu dortsh sy'n defnyddio batri mewn man cyfleus os digwydd i'r cyflenwad pŵer dorri neu ddiffodd.

- Os oes rhaid i chi ddefnyddio canhwyllau neu fatisis byddwch yn ofalus. Diffoddwch nhw'n llwyr cyn gadael yr ystafell neu cyn mynd i'r gwely.
- Defnyddiwch ddiffoddydd canhwyllau neu lwy i ddiffodd canhwyllau. Mae'n fwy diogel na chwythu gan y gall gwreichion hedfan.
- Gwnewch yn siŵr bod canhwyllau'n ddiogel mewn daliwr iawn ac ymhell oddi wrth unrhyw ddefnyddiau a all fynd ar dân - fel llenni.
- Cadwch ffôn symudol wrth law fel y gallwch wneud galwadau brys os bydd toriad yn y pŵer.

Awgrym da



Cadwch dortsh a batris wrth law

Tanau mewn Simneiau

Dyma'r achosion mwyaf cyffredin o danau mewn simneiau:

- Tanau neu declynnau sy'n rhy fawr i'r simnai.
- Llosgi pren gwyrdd gwlyb.
- Glanhau ac ysgubo'r simnai'n anaml.
- Llosgi pren neu fudlosgi pren dros nos am gyfnodau hir mewn stofiau pren.

Awgrymiadau syml i leihau'r risg o gael tân yn eich simnai:

- Ysgubwch y simnai cyn ei defnyddio.
- Gwnewch yn siŵr bod gard o flaen y tân bob tro.
- Gall gard rhag gwreichion atal tân difrifol.
- Diffoddwch y tân cyn mynd i'r gwely neu cyn gadael y tŷ
- Peidiwch â defnyddio petrol na pharaffin i gynnau eich tân.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych larwm mwg sy'n gweithio a phrofwch y larwm yn rheolaidd!

Pa mor aml ddylwn lanhau fy simnai?

Rydym yn argymhell y drefn cynnal a chadw syml ganlynol:

- Tanau tanwydd solet - Unwaith y flwyddyn ar gyfer tanwydd di-fwg, dwywaith y flwyddyn ar gyfer glo.
- Tanau llosgi pren - 4 gwaith y flwyddyn pan rydych yn eu defnyddio.
- Tân nwy – Unwaith y flwyddyn os yw wedi ei gynllunio i'w ysgubo
- Tanau olew – Unwaith y flwyddyn.

Os bydd tân simnai

- Ffoniwch 999 a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân ac Achub. Byddai'n help petai rhywun yn gallu aros amdanynt y tu allan.
- Os oes gennych dân agored cyffredin, diffoddwch y tân drwy dasgu dŵr yn ofalus ar y tân agored.
- Os oes gennych declyn tanwydd solet, caewch y wyntyll gymaint ag y gallwch.
- Symudwch ddodrefn a matiau i ffwrdd oddi wrth y lle tân a symudwch addurniadau.
- Rhowch gard gwreichion o flaen y tân.
- Teimlwch frest y simnai mewn ystafelloedd eraill am arwyddion o wres.
- Os yw wal yn dechrau cynhesu, symudwch y dodrefn oddi yno.
- Gwnewch yn siŵr bod y mynediad i'ch atig neu'r

gofod yn eich to ar gael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan y byddant am fynd drwy'r ardal hon yn drylwyr i chwilio am arwyddion posibl o'r tân yn lledaenu.

Ffoniwch y Gwasanaeth Tân ac Achub bob amser ar gyfer tân simnai – gall tân ddinistrio eich cartref.

Cofiwch!

Heb gynnal a chadw priodol, gall unrhyw fflwr tân neu stof achosi nwy carbon monocsid gronni i lefel beryglus. Bydd synhwyrdd monocsid yn eich diogelu rhag y risg hon.

Ymwybyddiaeth o CO

Y llofrudd tawel

Nwy di-liw, diarogl, a hynod o wenwynllyd yw carbon monocsid (CO) ac sydd i'w gael mewn teclynnau tanwydd carbon. Os ydych yn defnyddio nwy naturiol, LPG, olew gwresogi, neu danwydd solet ar gyfer gwresogi neu goginio, dylech fod yn ymwybodol o beryglon carbon monocsid. Os nad yw eich offer wedi ei osod a'i gynnal a'i gadw'n gywir, rydych mewn risg o fod yn agored i wenwyno gan CO. Gall llosgyddion sydd wedi eu haddasu'n wael, ffliwiau wedi eu blocio, jetiau budr ac awyru gwael achosi'r afiechyd hwn sy'n gallu lladd mewn munudau.

Mae symptomau cyffredin gwenwyno gan CO yn debyg i symptomau'r ffliw, ac maent yn cynnwys:

- Pen tost ysgafn
- Cyfog
- Blinder
- Pendro
- Chwydu
- Teimlo'n gysglyd

Mae bod yn ddiogel yn hawdd

- Gwnewch yn siŵr bod eich boeler a'ch popty'n cael gwasanaeth unwaith y flwyddyn gan beiriannydd cymwys priodol. Os ydych yn byw mewn lle ar rent gwnewch yn siŵr bod eich landlord yn cael rhywun i wirio'r offer bob blwyddyn - dyna'r gyfraith!
- Prynwch larwm CO ar gyfer eich teulu a'u hamddiffyn rhag peryglon gwenwyno. Mae pobl hŷn, mamau ifanc ac eraill sy'n treulio llawer o amser gartref yn arbennig o agored i niwed. Cadwch nhw'n ddiogel!
- Dylai pawb wirio eu simneiau a'u hysgubo'n rheolaidd.

Diogelwch tân ar gyfer adeiladau to gwellt

Gosodwch larwm mwg yn y llofft a gwnewch yn siŵr ei fod wedi ei gysylltu â larymau eraill yn y tŷ.

- Defnyddiwch ddargludyddion melt a gafodd eu profi a gwiriwch fod ganddynt un o'r arwyddion hyn – sy'n cadarnhau eu bod wedi eu cymeradwyo a'u bod yn ddiogel.

- Peidiwch â llosgi sbwriel neu wastraff gardd ger eiddo to gwellt.
- Defnyddiwch olau pared yn eich llofft yn lle bwlb golau agored am fod y rhain yn fwy o risg tân.
- Peidiwch byth â chynnau tân gwyllt ger yr eiddo.

Gosodwch erialau teledu ar bolion rhydd er mwyn atal melt rhag taro toeau gwellt.



British Standard Kitemark



Awgrym da



Gosodwch larwm mwg yn y llofft



Cyngor Diogelwch ar y Ffyrdd yn y Gaeaf

Yn ystod tywydd gwael iawn:

- Gwiriwch y rhagolygon tywydd lleol a chenedlaethol
- Gwrandewch ar y radio lleol a chenedlaethol am wybodaeth teithio
- Dywedwch wrth rywun sydd ar ben arall eich taith pryd rydych yn disgwyl cyrraedd.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych ddillad cynnes, bwyd, bŵts a thortsh - ac ewch â rhaw gyda chi os yw hi'n bwrw eira.
- Cliriwch eich ffenestri a'ch drychau cyn cychwyn allan ac ewch â chrafwr sgrin a dadrewydd gyda chi.

Gwiriadau

Gwiriwch y canlynol neu ewch â'ch car at eich mecanydd a gofynnwch iddynt wirio'r canlynol:

- Batri
- Sychwyr glaw
- Lefelau gwrthrewydd motor eich car
- Hylif gwrthrewydd golchi sgrin
- System wresogi
- Breciau
- Teiars
- Dadrewydd sgrin

Diogelwch

Gallwch gadw chi'ch hun ac eraill yn ddiogel drwy:

- Arafu
- Gadael mwy o bellter rhyngoch chi â'r cerbyd o'ch blaen (cynyddwch y rheol 2 eiliad i 4 eiliad neu fwy)
- Neilltuo amser ychwanegol i orffen eich taith

Gall amodau gyrru yn y gaeaf fod yn anodd dros ben. Eto i gyd, gydag ychydig bach o ofal a chynllunio o flaen llaw, mae'n bosibl lleihau'r risg a gwella eich diogelwch chi, eich cyd-deithwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

Awgrymiadau wrth yrru

Dilynwch yr awgrymiadau hyn ar gyfer gyrru'n ofalus yn y gaeaf:

- Cadwch eich ffôn symudol wedi ei wefru'n llawn.
- Paciwcw grafwr eira/rhew, dadrewydd, rhaw eira, het, menig, bŵts, tortsh, potel o ddŵr a chit cymorth cyntaf. Ar gyfer teithiau hirach, dylech bacio blancedi, paratoi byrbryd a fflasc o ddiod boeth.
- Golchwch y car yn aml er mwyn cael gwared â'r halen a'r baw sy'n cronni dros y gaeaf.
- Cadwch eich tanc petrol yn llawn bob amser – nid oes dal pryd y cewch eich oedi.
- Peidiwch â defnyddio dŵr i ddadrewi'r ffenestri.
- Ar ddyddiau oerach byddwch yn arbennig o ofalus ar ffyrdd â choed ar eu hymylon – mae'r coed yn rhwystro'r haul rhag cyrraedd y ffordd, a allai fod yn llithrig o hyd pan mae popeth arall o'i hamgylch wedi dadmer.



MAE LARYMAU MWG YN
ACHUB
BYWYDAU

RHESTR GWIRIO DIOGELWCH

Cofiwch am yr awgrymiadau cyffredinol hyn sydd yn eich taflen Diogelwch rhag Tân yn y Cartref i gadw'n ddiogel rhag tân.



Cofiwch

Cadwch y nodyn atgoffa cyfleus hwn o'n hawgrymiadau da.

Gosodwch larymau tân ar bob llawr yn eich cartref.



Profwch fatris eich larwm mwg bob wythnos. Newidiwch nhw bob blwyddyn. Peidiwch byth â'u tynnu allan.



Ceisiwch osgoi gadael plant yn y gegin ar eu pen eu hunain pan fyddwch yn coginio. Cadwch fatsis a dolenni sosbenni allan o gyrraedd plant.



Cymerwch ofal wrth goginio gydag olew poeth – mae'n mynd ar dân yn hawdd.



Mae terfynau ar faint o ampiau y gall ceblau estyn ac addaswyr eu cael. Peidiwch â'u gorlwytho.



Gwaredwch sigarêts yn ofalus. Diffoddwch nhw. Diffoddwch nhw'n llwyr.



Gwnewch yn siwr bod canhwyllau wedi eu gosod yn sownd ac ymhell o ddefnyddiau a allai fynd ar dân – fel llenni.



Cynlluniwch ddihangfa a gwnewch yn siwr bod pawb yn gyfarwydd â hi.



Os oes tân, ewch allan, arhoswch allan a ffoniwch 999.



Caewch y drysau tu mewn gyda'r nos er mwyn atal tân rhag lledaenu.

